| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Cynllunio** |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **13 Tachwedd 2013** |
| **Aelod/Swyddog Arweiniol:** | **Y Cyng. David Smith, Parth Cyhoeddus**<br>**Angela Loftus (Rheolwr Polisi Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd)** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Catrin Roberts, Swyddog Cynllunio** |

**Teitl: Canllaw Cynllunio Atodol yr Iaith Gymraeg – Drafft Ymgynghorol**

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn cyd-fynd â'r ddogfen Canllawiau Cynllunio Atodol drafft (CCA) ar gynllunio a'r iaith Gymraeg a fydd, o'u mabwysiadu, yn cael eu defnyddio wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Yn dilyn mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych (CDLl), mae angen CCA ar ystyriaethau'r iaith Gymraeg cynigion datblygu er mwyn darparu arweiniad pellach ar gyfer datblygwyr, Swyddogion ac Aelodau. Mae CCA drafft ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus ynghlwm i'r adroddiad hwn.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod yr Aelodau'n cytuno ar y CCA drafft ar yr iaith Gymraeg fel sail ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus.

## 4. Manylion am yr Adroddiad

4.1. Penderfynodd y Cyngor fabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol ar 4 Mehefin, 2013. Mae'r thema Parchu Natur Unigryw yn cynnwys polisi cynllun datblygu RD5, sy'n ceisio diogelu anghenion a buddiannau'r iaith Gymraeg a ffabrig cymdeithasol a diwylliannol cymunedau. Dyma'r tro cyntaf mae Sir Ddinbych wedi gweithredu polisi o'r math hwn. Fodd bynnag, mae awdurdodau cynllunio lleol eraill yng Ngogledd Cymru sy'n gweithredu polisi tebyg (sef Gwynedd/ Môn, Eryri, Conwy).

4.2. Mae'r polisi yn ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr gyflwyno naill ai <u>Datganiad</u> neu <u>Asesiad</u> Cymunedol Ieithyddol i gyd-fynd â'u cais cynllunio yn dibynnu ar natur y cais. Mae'r polisi yn amlinellu mai'r gofyniad arferol yw bod datganiad yn cael ei gyflwyno ar gyfer cynigion bach o fewn pentrefi, pentrefannau neu gefn gwlad agored; tra dylid cyflwyno asesiad gyda cheisiadau o fewn pob anheddiad lle mae'r cynnig ar gyfer datblygiadau ar raddfa fawr. Ni fyddai angen datganiad ar gyfer datblygiad bach o fewn anheddiad (tref twf is neu

Safle Strategol), fodd bynnag, byddai angen asesiad os byddai'r datblygiad ar raddfa fawr (er enghraifft, byddai'r cynnig i ailddatblygu Indesit, Bodelwyddan angen Asesiad).

4.3. Mae'r CCA wedi cael ei gynhyrchu ar y cyd gyda'r Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cymunedau yn sgil y gwaith a wnaed ar yr Archwiliad Iaith Gymraeg ar gyfer y Sir. Fodd bynnag, nid yw'n bosibl i oedi gwaith ar gynhyrchu'r CCA nes bo canfyddiadau'r Archwiliad wedi cael eu cadarnhau gan fod y swyddogion angen gweithredu'r polisi cyn gynted ag y bo modd. Mae'n bwysig ein bod yn cael arweiniad clir a chadarn ar gyfer ymgeiswyr a swyddogion. Os bydd angen, gellid cynnwys canfyddiadau'r Archwiliad yn y CCA cyn ei fabwysiadu'n derfynol, byddai hyn yn cael ei drafod yng nghyfarfod Grŵp Llywio'r CDLl a'r Pwyllgor Cynllunio wedi hynny.

4.4. Byddai'r cyfnod ymgynghori cyhoeddus am isafswm o 8 wythnos, a rhagwelir y bydd yn dechrau yn ystod yr wythnos gyntaf ym mis Rhagfyr 2013. Fodd bynnag, oherwydd byddai hyn yn cynnwys cyfnod y Nadolig, bwriedir ymestyn y cyfnod ymgynghori i gadw hyn mewn cof. Bydd canlyniadau'r ymgynghoriad yn cael eu hadrodd yn ôl i'r Pwyllgor Cynllunio gyda'r CCA terfynol i'w fabwysiadu.

4.5. Yn wyneb y TAN 20 diweddar, rydym yn cynnig ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

5.1. *Blaenoriaethau Corfforaethol 2012-17.* Er nad yr iaith Gymraeg yn nodwedd benodol o fewn y 7 blaenoriaeth gorfforaethol a nodwyd yn y Cynllun Corfforaethol presennol, bydd y CCA yn cyfrannu'n gadarnhaol yn anuniongyrchol is sawl agwedd trawsbynciol o fusnes y Cyngor.

5.2 *Y Cynllun MAWR 2011-2014.* Bydd y CCA yn cyfrannu'n uniongyrchol gadarnhaol i agweddau o'r Cynllun MAWR, yn enwedig:

- Gall pobl hŷn fyw bywyd annibynnol a boddhaus;
- Mae gan blant a phobl ifanc sgiliau am oes; a
- Mae anghenion ein cymunedau lleol yn cael eu cydnabod a'u diwallu;

**6. Faint fydd hyn yn costio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1. Ni ragwelir bydd cytuno ar gyfer ymgynghori ar y CCA yn creu unrhyw gost ychwanegol.

**7. Beth yw'r prif gasgliadau o'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EqIA) a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylid cynnwys templed yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gwblhawyd fel atodiad i'r adroddiad.**

7.1 Ni chredir fod angen Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer y penderfyniad hwn. Mae'r egwyddor o angen asesiad o effaith y datblygiad ar yr iaith Gymraeg wedi ei sefydlu trwy fabwysiadu'r CDLl. Mae'r CCA yn rhoi

arweiniad pellach ar hyn.  Cynhaliwyd asesiad llawn o effaith y Cynllun Datblygu Lleol ar gydraddoldeb ym mis Mai 2011.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?**

8.1 Ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad ffurfiol, ond mae ymgynghori mewnol wedi'i gynnal gyda swyddogion yn yr Adran Rheoli Datblygu a’r Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Gymunedau.

8.2 Mae mewnbwn ar gynnwys y CCA hefyd wedi cael ei ddarparu trwy gyfrwng dwy sesiwn gweithdy a gynhaliwyd gyda Grŵp Llywio Aelodau CDLl a Chynghorau Dinas, Tref a Chymuned.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

9.1 Dylai unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â'r canllawiau fod wedi eu cynnwys o fewn y cyllidebau presennol ac felly nid oes unrhyw oblygiadau ariannol amlwg yn yr adroddiad.

**10. Pa risgiau sy’n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

10.1 Yn absenoldeb canllawiau cyfredol, mae perygl na fyddai’r Cyngor yn gallu gweithredu polisi’r CDLl yn effeithiol. Byddai hyn yn arwain at fethu rhoi ystyriaeth lawn o effeithiau datblygiadau newydd ar y defnydd o'r iaith Gymraeg o fewn gwead cymdeithasol a diwylliannol ein cymunedau ar eu traul. Mae mabwysiadu CCA iaith Gymraeg newydd wedi cael ei nodi fel blaenoriaeth gan y Grŵp Llywio Aelodau CDLl.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

11.1 Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol (2004).